# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 4 – Ty Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 6 Mawrth 2014** |
| Amser: | **09.30 - 13.00** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_500000_06_03_2014&t=0&l=en

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar (Cadeirydd)**<br>**Mike Hedges**<br>**Alun Ffred Jones**<br>**Julie Morgan**<br>**Gwyn R Price**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts** |
| Tystion: | **Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Robert Oxley, Cynghrair y Trethdalwyr** |
| Staff y Pwyllgor: | **Fay Buckle (Clerc)**<br>**Meriel Singleton (Ail Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Matthew Richards (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Sandy Mewies. Roedd Gwyn Price yn dirprwyo ar ei rhan.

## 2 Papurau i’w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

2.1 Cyflog Uwch-reolwyr: Gwybodaeth ychwanegol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

2.2 Cyflog Uwch-reolwyr: Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru (21 Chwefror 2014)

2.3 Cyflog Uwch-reolwyr: Llythyr gan David Sissling (26 Chwefror 2014)

2.4 Gofal heb ei drefnu: Llythyr gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (12 Chwefror 2014)

2.5 Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai: Llythyr gan yr Athro Jean White (19 Chwefror 2014)

## 3 Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG: Trafod yr ymateb gan Lywodraeth Cymru

3.1 Trafododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Weithredu’r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG a'i nodi.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am eglurhad ar nifer o faterion.

3.3 Nododd y Pwyllgor fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnig paratoi memorandwm ar y cynnydd a wnaed o ran lleihau'r diffyg ariannol ar gyfer hawliadau ac ar lansiad y fframwaith diwygiedig yn yr hydref. Wedyn, bydd yn ystyried cynnal diweddariad i'r ymchwiliad ai peidio.

## 4 Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Trafod yr ymateb gan Lywodraeth Cymru

4.1 Trafododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Drefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'i nodi.

4.2 Roedd y Pwyllgor yn cytuno bod angen mwy o eglurhad ynghylch rhai o ymatebion y Llywodraeth a chytunodd i'w codi gyda'r Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant.

4.3 Gofynnodd y Pwyllgor am bapur briffio ar drefniadau llywodraethu o fewn GIG Cymru a hefyd ar wasanaethau iechyd arbenigol. Cytunodd Swyddfa Archwilio Cymru i'w darparu.

## 5 Cyflog Uwch-reolwyr: Sesiwn dystiolaeth 4

5.1 Bu'r Pwyllgor yn holi Robert Oxley o Gynghrair y Trethdalwyr ar Gyflog Uwch-Reolwyr.

5.2 Cytunodd Robert Oxley i ddarparu copi o adroddiad y Sefydliad Astudiaethau Cyllid ar y premiymau o ran cyflog yn y sector cyhoeddus a hefyd yr erthygl o'r Local Government Chronicle y cyfeiriodd ati.

5.3 Yn dilyn y sesiwn, gofynnodd y Pwyllgor iddo am gyfeiriad at y sail ar gyfer ei honiadau ynghylch cyfran y bobl sy'n ennill rhwng £100,000 a £150,000 a mwy na £150,000 yng Nghymru.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

6.1 Cytunwyd ar y cynnig.

## 7 Cyflog Uwch-reolwyr: Trafod y dystiolaeth

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd a nodi y byddai'n dychwelyd at y mater ar 3 Ebrill.

7.2 Gofynnodd y Pwyllgor i'r Clercod gysylltu â Grŵp Hay i gael manylion ynghylch pryd cafodd tâl is ei awgrymu ar gyfer uwch swydd ac unrhyw enghreifftiau o arfer da o ran cyflog sy'n gysylltiedig â pherfformiad.

## 8 Trafod rhaglen astudiaethau gwerth am arian Swyddfa Archwilio Cymru

8.1 Cafwyd cyflwyniad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar y gwaith presennol a'r gwaith i ddod yn rhaglen Swyddfa Archwilio Cymru.

8.2 Trafododd y Pwyllgor y rhaglen awgrymedig a gwneud nifer o awgrymiadau a fydd wedi'u cynnwys yn y papur terfynol.

## 9 Gofal heb ei drefnu: Trafod yr adroddiad drafft

9.1 Oherwydd cyfyngiadau amser, trafododd yr Aelodau ran o'r adroddiad drafft; bydd yn dychwelyd at yr eitem hon mewn cyfarfod yn y dyfodol.